THOMAS, WILLIAM ('Gwilym Marles'; 1834 - 1879), gweinidog Undodaidd, diwygiwr cymdeithasol, llenor, ac ysgolfeistr

Enw: William Thomas
Ffugenw: Gwilym Marles
Dyddiad geni: 1834
Dyddiad marw: 1879
Rhiant: Ann Thomas (née Jones)
Rhiant: William Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Undodaidd, diwygiwr cymdeithasol, llenor, ac ysgolfeistr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: David Jacob Davies

Ganwyd yn Glan Rhyd y Gwiail ger Brechfa, Sir Gaerfyrddin, yn fab i William ac Ann Thomas (gynt Jones), ond mabwysiadwyd ef gan chwaer ei dad. Fe'i addysgwyd yn ysgol Ffrwd-y-fâl, 1851, Coleg Caerfyrddin, 1852-6, a Phrifysgol Glasgow, 1856-60, lle graddiodd yn M.A. Aeth i Goleg Caerfyrddin yn Annibynnwr ond daeth oddi yno yn Undodwr, ac ar ddiwedd ei gwrs yn Glasgow ymsefydlodd yn weinidog ar eglwysi Undodaidd Bwlch y Fadfa a Llwynrhydowen, a bu yno o 1860 hyd ei farw.

Bu'n athro preifat i 'Islwyn' rhwng Tachwedd 1857 a Chwefror 1858, a chyfrannodd nofel i *Seren Gomer*, 1855. Cyhoeddodd ei gyfrol fechan, *Prydyddiaeth*, yn 1859, a golygodd a chyfrannodd yn helaeth i'w gylchgrawn, *Yr Athraw*, yn ystod ei fodolaeth o Medi 1865 hyd Awst 1867. Ei brif gyfraniadau i'r *Ymofynydd* oedd 'Cofion a Chyffesiadau 1861,' 'Hanner awr gyda'r Bardd o Bantycelyn,' 1863, a 'Theodore Parker,' 1863-4.

Bu'n ddisgybl pybyr i syniadau diwinyddol a chymdeithasol Parker ac o'r herwydd yn gychwynnydd i'r Undodiaeth fodern yng Nghymru. Ymunodd yn galonnog ag achos Rhyddfrydiaeth yn Sir Aberteifi a bu ei gyfraniadau i'r Wasg, ei areithiau, a'i bregethau, yn gyfrwng i godi'r landlordiaid yn ei erbyn; a hyn oedd achos ei droi ef a'i gynulleidfa allan o hen gapel Llwynrhydowen, 29 Hydref 1876. Bu'n flaenllaw yn ystod etholiad 1868 a chefnogodd egwyddor y balot. Cadwodd ysgol yn Llandysul, 1860-79, a bu'n gyfrwng i sefydlu achos Undodaidd newydd yn y pentref.

Bu farw 11 Rhagfyr 1879 a chladdwyd ef ym mynwent y capel newydd, Llwynrhydowen.

Awdur

Y Parchedig David Jacob Davies, (1916 - 1974)

Ffynonellau

William Thomas, *Gwilym Marles* (Llanuwchllyn 1905)

dyddiaduron a llawysgrifau yn llyfrgell Llwynrhydowen

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Yr Ymofynnydd (rhifyn coffa), Hydref 1934

The Unitarian Students at the Presbyterian College, Carmarthen â€¦ 1796â€“1901 (1901)

Darllen Pellach

Aubrey J. Martin, *Hanes Llwynrhydowen* (Llandysul 1977)

CBHC: Addoldai Cymru: Yr Hen Gapel, Llwynrhydowen

Coflein: Hen Gapel, Cardigan Road, Rhydowen

Coflein: Capel Llwynrhydowen Welsh Unitarian Chapel; Llwynrhydowen (New), Pontsian Road, Rhydowen

Dictionary of Unitarian & Universalist Biography William Thomas (Gwilym Marles), gwelwyd Rhagfyr 2019

Erthygl Wicipedia: William Thomas

Delweddau

LIGC: William Thomas M.A. "Gwilym Marles" poet, preacher, patriot - Headmaster of Llandyssul Grammar School, 1860-1879

John Thomas, Gravestone of Williams Thomas (Gwilym Marles) (d.1879)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 160279044

Wikidata: Q8019284

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF | Argraffu | Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Davies, D. J., (1953). THOMAS, WILLIAM ('Gwilym Marles'; 1834 - 1879), gweinidog Undodaidd, diwygiwr cymdeithasol, llenor, ac ysgolfeistr. *Y Bywgraffiadur Cymreig.* Adferwyd 11 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-WIL-1834

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government